

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Menter a Dysgu

Rôl Mentrau Cymdeithasol
yn Economi Cymru

Tachwedd 2010



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Menter a Dysgu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8018
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: Enterprise.learning.comm@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Menter a Dysgu

Rôl Mentrau Cymdeithasol
yn Economi Cymru

Tachwedd 2010



Y Pwyllgor Menter a Dysgu

Caiff y Pwyllgor Menter a Dysgu ei benodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried ac adrodd ar faterion ym meysydd datblygu economaidd, trafnidiaeth, addysg a sgiliau. Yn arbennig, gall y Pwyllgor archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisi Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus cysylltiol.

Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar ôl Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai 2007 fel un o bwyllgorau craffu'r Cynulliad. Mae ei bwerau wedi'u nodi yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn arbennig Rheol Sefydlog 12. Mae'r rhain ar gael ar <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-assembly-guidance.htm>

Aelodau'r pwyllgor

Aelod Pwyllgor	Plaid	Etholaeth / Rhanbarth
Gareth Jones (Cadeirydd)	Plaid Cymru	Aberconwy
Christine Chapman	Llafur	Cwm Cynon
Jeff Cuthbert	Llafur	Caerffili
Andrew Davies	Llafur	Gorllewin Abertawe
Paul Davies	Plaid Geidwadol Cymru	Preseli Sir Benfro
Nerys Evans	Plaid Cymru	Canolbarth a Gorllewin Cymru
Brian Gibbons	Llafur	Aberafan
David Melding	Plaid Geidwadol Cymru	Canol De Cymru
Jenny Randerson	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru	Canol Caerdydd

Cynnwys

Argymhellion y Pwyllgor	5
Nod yr ymchwiliad	8
Beth yw menter gymdeithasol?	8
Diffiniadau	8
Gweithgarwch mentrau cymdeithasol yng Nghymru	10
Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.....	13
Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol Cymru.....	13
Arweinyddiaeth	14
Potensial y sector mentrau cymdeithasol	16
Trosglwyddo asedau.....	17
Darparu gwasanaethau cyhoeddus.....	18
Caffael sector cyhoeddus	20
Model Glas Cymru.....	23
Ysbrydoli pobl ifanc	25
Yr heriau sy'n wynebu mentrau cymdeithasol yng Nghymru	26
Maint	26
Mynediad at gyllid.....	28
Cymorth busnes	31
Sgiliau	33
Casgliadau	35
Tystion.....	38
Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig	39

Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cyd-fynd â'r argymhellion.

Argymhelliad 1. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru i nodi'n strategol ardaloedd yng Nghymru lle gallai mentrau cymdeithasol chwarae rhan bwysig mewn cymunedau lleol. (Tudalen 12)

Argymhelliad 2. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud rhagor er mwyn creu amgylchedd sy'n galluogi nodi a datblygu unigolion a allai gyflawni'r rôl o entrepreneuriaid cymdeithasol a rhoi cefnogaeth barhaus iddynt. (Tudalen 13)

Argymhelliad 3. Rydym yn argymhell bod Gweinidogion yn diffinio lefelau'r gweithgarwch a'r canlyniadau y maent am i fentrau cymdeithasol ac entrepreneuriaid cymdeithasol eu cyflawni yn y dyfodol, gan gynnwys datblygu camau gweithredu manwl er mwyn gwireddu eu potensial, a phennu meincnodau i fesur a monitro effeithiolrwydd eu cyfraniadau i'r economi. (Tudalen 14)

Argymhelliad 4. O gofio bod mentrau cymdeithasol wedi'u nodi yn astudiaeth gwmpasu Llywodraeth Cynulliad Cymru fel ffordd o gynnal busnes, a bod cyfraniad y sector wedi'i gydnabod yn Rhaglen Adnewyddu'r Economi y Llywodraeth, rydym yn argymhell bod Gweinidogion Cymru yn symud canolbwynt polisi ac atebolrwydd mentrau cymdeithasol yn y Cabinet i'r portffolio datblygu economaidd a sefydlu uned mentrau cymdeithasol unigryw o fewn Adran yr Economi a Thrafnidiaeth. (Tudalen 15)

Argymhelliad 5. Rydym yn argymhell nad yw'r potensial sydd gan fentrau cymdeithasol yn cael ei weld fel modd o lyncu gwasanaethau sydd angen eu darparu'n rhatach, ond yn ffordd o ddatblygu dulliau o ddarparu gwasanaethau sy'n newydd, yn arloesol ac yn fwy effeithiol. (Tudalen 17)

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod adrannau'r Llywodraeth, awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol yn gwbl eglur ynghylch sut mae trosglwyddo asedau. (Tudalen 18)

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn comisiynu gwaith ymchwil i effaith economaidd-gymdeithasol mentrau cymdeithasol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys adborth gan staff o fewn y sefydliadau hynny a chleientiaid sy'n derbyn y gwasanaethau. (Tudalen 20)

Argymhelliad 8. Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy Gwerth Cymru, wedi gwella caffael sector cyhoeddus, ond rydym yn argymell y dylid herio pob corff cyhoeddus i wneud eu polisiau a'u harferion caffael yn fwy agored i fentrau cymdeithasol, a bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio â Chynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru i sicrhau y gall mentrau cymdeithasol gystadlu'n well am gontractau sector cyhoeddus. (Tudalen 22)

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell ymhellach bod yr hyfforddiant a'r cymorth caffael mae Gwerth Cymru yn ei ddarparu yn cael ei deilwra i ddiwallu anghenion penodol y sector mentrau cymdeithasol, gan gynnwys darparu cymorth a fydd yn galluogi mentrau cymdeithasol i gydweithio wrth wneud cynnig am gontractau. (Tudalen 22)

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd camau i gefnogi ac annog mentrau cymdeithasol i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd caffael a ddaw o'r sector preifat. (Tudalen 23)

Argymhelliad 11. O gofio am lwyddiant model Glas Cymru, rydym o'r farn ei fod yn cynnig atebion i heriau strwythurol eraill. Rydym yn argymell bod Gweinidogion Cymru yn parhau i archwilio'r posibilrwydd o drosglwyddo model Glas Cymru, amlygu'r mathau o gefnogaeth sydd eu hangen i lwyddo mewn sefyllfaoedd eraill, a hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r model ymysg penderfynwyr allweddol. (Tudalen 25)

Argymhelliad 12. Rydym yn argymell y dylai addysg fenter gynnwys mentrau cymdeithasol ac entrepreneuriaeth ac y dylid cynnwys mentrau cymdeithasol yng ngwasanaethau cynghori ar yrfaeodd a rhaglenni profiad gwaith ysgolion a phrifysgolion. (Tudalen 25)

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dysgu oddi wrth gronfeydd buddsoddi eraill ac yn adolygu'r cymorth ariannol mae'n ei gynnig i fentrau cymdeithasol er mwyn bodloni eu hanghenion yn fwy priodol o ran cymorth i ddechrau a datblygu. Dylai'r adolygiad hwn gynnwys cynigion ar gyfer gwella gwybodaeth rheoli ariannol mentrau cymdeithasol fel eu bod yn fwy hyderus wrth wneud cais am fenthyciadau masnachol a chyllid ecwiti. (Tudalen 30)

Argymhelliad 14. Yn wyneb y cynnydd posibl yn y galw am gymorth ariannol, a chapasiti'r banciau presennol i ddarparu hynny, rydym yn credu bod lle i greu system ariannu bwrpasol ar gyfer y sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn argymell, fel rhan o'r adolygiad ariannol yr ydym wedi sôn amdano uchod, bod Gweinidogion yn ymateb i'r cynnig am system ariannol bwrpasol drwy baratoi dadansoddiad cost a budd o'r opsiynau. (Tudalen 31)

Argymhelliad 15. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gydag ystod o bartneriaid, gan gynnwys Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru, i wella hygyrchedd, ansawdd ac argaeledd cymorth a chyngor busnes i sector y mentrau cymdeithasol, a sicrhau y gellir darparu cyngor ariannol a chyngor busnes o lefel uchel gyda'i gilydd mewn un lle fel pecyn cydlynol a chynhwysfawr i fentrau ledled Cymru er mwyn hwyluso eu twf. (Tudalen 33)

Argymhelliad 16. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod y rhaglen gyffredinol ar gyfer datblygu sgiliau'r gweithlu Cymreig yn diwallu anghenion amrywiol y sector mentrau cymdeithasol, yn enwedig wrth ddatblygu sgiliau craidd entrepreneuriaid masnachol, er enghraifft, drwy gymorth a mentora gan gyfoedion. (Tudalen 34)

Nod yr ymchwiliad

1. Diben yr ymchwiliad hwn oedd rhoi cyfle i Bwyllgor Menter a Dysgu y Cynulliad Cenedlaethol ddatblygu dealltwriaeth o rôl bresennol mentrau cymdeithasol yn economi Cymru a'r heriau sy'n eu hwynebu; ystyried y cyfleoedd posibl ar gyfer datblygu economaidd cynaliadwy ac adfywio cymunedol a gyflwynir gan fodel busnes y mentrau cymdeithasol; a dylanwadu ar ddatblygu polisi a chymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â mentrau cymdeithasol ac entrepreneuriaid yn y dyfodol.
2. Fel rhan o'r ymchwiliad, cynhaliwyd pedair sesiwn dystiolaeth lafar rhwng 1 Gorffennaf a 22 Medi 2010 a chafwyd 16 cyflwyniad ysgrifenedig. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl unigolion a sefydliadau a ddarparodd wybodaeth i'r ymchwiliad, ac yn arbennig i'n cynghorydd arbenigol ar gyfer yr ymchwiliad hwn sef Lis Burnett, Pennaeth Both Entrepreneuriaeth Gymdeithasol, Prifysgol Morgannwg.

Beth yw menter gymdeithasol?

Diffiniadau

3. Nid yw menter cymdeithasol yn derm cyfarwydd i lawer o bobl tu allan i'r sector, ac mae'n cynnwys amrywiaeth eang o weithgarwch. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn diffinio menter gymdeithasol fel busnes sydd ag amcanion cymdeithasol yn bennaf, lle mae ei arian dros ben yn cael ei ail-fuddsoddi yn y busnes neu yn y gymuned, yn hytrach na gwneud cymaint o elw â phosibl i gyfranddalwyr.¹ Mae menter gymdeithasol felly'n pontio rhwng cyrff megis cyrff cydweithredol, undebau credyd, cyrff cydfuddianol, ymddiriedolaethau datblygu, cwmnïau cymdeithasol a sefydliadau datblygu cymunedau. Cafwyd diffiniad hefyd o fenter gymdeithasol fel sefydliad sy'n masnachu at ddiben cymdeithasol,² a chyfeiriwyd sawl gwaith at bwysigrwydd amcanion triphlyg mentrau cymdeithasol – sef y nod o gyrraedd targedau sy'n gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.³
4. Gall arwyddocâd mentrau cymdeithasol amrywio. Nododd Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru fod mentrau

¹ Llywodraeth Cynulliad Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, paragraff 2

² Cofnod o'r Trafodion, paragraff 139, 8 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

³ Vision 21, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 3

cymdeithasol yn cael eu portreadu'n negyddol gan fod y "sector yn un mylol neu yn un teilwng ond heb effaith economaidd o bwys na photensial i'w ddyblygu nag i dyfu.⁴ Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd y Galeri ei bod yn teimlo fod mentrau cymdeithasol yn cael eu portreadu'n aml iawn fel creaduriaid barus sy'n bachu cyllidebau cyhoeddus prin yn gyfnewid am ddim bron.⁵

5. Nododd Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru yn ei thystiolaeth nad yw pobl yn ystyried mentrau cymdeithasol fel busnes *go iawn*.⁶ Gwnaeth Ymddiriedolaeth Datblygu Gorseinon sylw hefyd ar y ffaith ei bod yn dioddef am nad oedd yn cael ei chydabod fel busnes neu fusnes bach a chanolig er ei bod yn cyflogi 44 aelod o staff ac yn bwydo tua £500,000 i'r economi leol.⁷ Nododd yr Athro Alan Lovell o Brifysgol Morgannwg yn ei dystiolaeth ysgrifenedig mai nad swyddogion cyllido yn methu cymryd mentrau cymdeithasol o ddifrif yw'r broblem, ond yn hytrach nad yw rhai swyddogion cyllido yn *siŵr* o sut i ddelio â hwy.⁸

6. Roedd hi'n ddiddorol clywed gan Jerr Boschee, Cyfarwyddwr Gweithredol Sefydliad y Mentrau Cymdeithasol, am ddiffiniad ychydig yn wahanol o fentrau cymdeithasol yn yr Unol Daleithiau, lle maent yn:

"draw a distinction between social innovation and social enterprise. We believe that they exist along a continuum and, taken together, they define the larger field of social entrepreneurship. The difference between the two is that social innovation does not require earned revenue but social enterprise does. Most social innovators do not create social enterprises. So, you could say that every social enterprise is run by a social entrepreneur, but not every social entrepreneur starts a social enterprise; they may simply be social innovators doing new things in different ways, but not using earned revenue."⁹

⁴ Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 5

⁵ Galeri Caernarfon Cyf, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 2

⁶ Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 3

⁷ Ymddiriedolaeth Datblygu Gorseinon, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 6

⁸ Yr Athro Alan Lovell, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 1

⁹ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 178, 8 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

7. Clywsom hefyd fod gan fentrau cymdeithasol wreiddiau gwahanol yn yr Unol Daleithiau gan iddynt ddechrau yn y sector preifat yn hytrach na'r sector di-elw.¹⁰

8. Er y byddai rhai'n dadlau nad yw diffiniadau o fentrau cymdeithasol o bwys,¹¹ rydym ni o'r farn bod y ffordd mae mentrau cymdeithasol yn diffinio'u swyddogaethau yn dylanwadu ar eu rôl economaidd. Rydym yn cyfeirio at y mater hwn yn nes ymlaen yn yr adroddiad. Nododd Sefydliad Astudiaethau Cydweithredol Caerdydd yn ei dystiolaeth:

"We do not see social enterprise as a business model for deprived local economies which cannot survive in the cut-and-thrust of the capitalist market, an economy for losers, if you will. Rather, we propose the social economy as a positive economic form which offers an alternative to the competitive model that has not served Welsh people well in the past.[...].The greater development of Welsh social enterprises would allow public money invested in Wales to be anchored in Wales and to achieve a higher multiplier value for the Welsh people. In addition, Welsh society would benefit from more engaged, competent and skilful citizens."¹²

Gweithgarwch mentrau cymdeithasol yng Nghymru

9. Dywedodd Jerr Boschee wrthym fod y Deyrnas Unedig ar flaen y gad o ran gweithgarwch mentrau cymdeithasol, o'i chymharu â gweddill y byd.¹³

10. Ym mis Mai 2008, comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ymchwil i fapio gweithgarwch mentrau cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys maint, cwmpas, natur, iechyd a rôl mentrau cymdeithasol, gyda'r nod o ganfod sut y gallai'r Llywodraeth gefnogi'r sector yn fwy effeithiol.¹⁴ Dyma rai o'r prif ganfyddiadau:

¹⁰ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 196, 8 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

¹¹ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 66, 15 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

¹² Sefydliad Astudiaethau Cydweithredol Caerdydd, dystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 3

¹³ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 231, 8 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

¹⁴ Mapio gweithgarwch mentrau cymdeithasol yng Nghymru - Deall er mwyn Dylanwadu, Sector Projects, Geoeconomics a The Research Unit, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Hydref 2009

- canfu dros 3,000 o sefydliadau. Mae deuparth ohonynt yn sefydledig, sy'n golygu eu bod yn ennill o leiaf hanner eu hincwm, ac mae tua chwarter yn hunangynhaliol gan ennill 100 y cant o'u hincwm;
- yn seiliedig ar ffigurau 2007/08, amcangyfrifir mai maint y sector mentrau cymdeithasol o ran trosiant yw £2.2 biliwn (tua 2.6 y cant o drosiant holl fentrau Cymru). Mae'n werth nodi bod hyn i gyfri am gyfran uwch o gyfanswm trosiant mentrau cymdeithasol y Deyrnas Unedig nag oedd yn ddisgwyliedig o gyfraniad economi Cymru tuag at Werth Ychwanegol Crynswth y Deyrnas Unedig;
- ceir ystod eang o sefydliadau yn y sector. O bell ffordd, Glas Cymru, y cwmni dŵr cenedlaethol, yw'r fenter gymdeithasol fwyaf yng Nghymru (gyda throsiant o £623 miliwn yn 2007/08, neu 28 y cant o gyfanswm trosiant y sector). Mae nifer o ddarparwyr tai cymdeithasol hefyd yn sefydliadau mawr ac amcangyfrifir eu bod gyda'i gilydd yn cyfrannu 26 y cant o gyfanswm trosiant amcangyfrifedig y sector. Fodd bynnag, mae traean y mentrau cymdeithasol yn fach iawn, gan ddatgan bod eu trosiant blynyddol yn llai na £25,000. Amcangyfrifir mai canolrif y trosiant cyfartalog yw oddeutu £50,000;
- amcangyfrifir bod mentrau cymdeithasol yn darparu tua 29,000 o swyddi amser llawn, 20,000 o swyddi rhan-amser a 105,000 o gyfleoedd i wirfoddoli (tua 3.6 y cant o'r swyddi yng Nghymru).

11. Nodwyd pryder mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan Interlink a Chyngor Gwirfoddol Sirol Rhondda Cynon Taf, bod ymchwil mapio Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi hepgor nifer fawr o sefydliadau.¹⁵ Nododd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru bryderon hefyd:

“Mae'r ymchwil mapio'n dangos anawsterau diffinio menter gymdeithasol. Drwy ddechrau ar ffigur trothwy isel iawn (h.y. 15-25% o incwm drwy fasnachu) byddai wedi cynnwys bron unrhyw elusen, grŵp cymunedol neu fudiad gwirfoddol.

“Felly, mae WCVA yn cytuno â'r astudiaeth gwmpasu pan ddywed 'nid sector ar wahân yw menter gymdeithasol - yn hytrach, ffordd o gynnal busnes ydyw'.¹⁶ Mae ceisio diffinio a

¹⁵ Interlink, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 3

¹⁶ Llywodraeth Cynulliad Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, Atodiad A

mapio menter gymdeithasol wedi defnyddio egni ac adnoddau, a heb lawer o ddiben yn y pen draw.”¹⁷

12. Nodwyd pryderon am werth yr ymchwil mapio ym mhapur Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru gan ei fod yn nodi bod y Prif Weithredwr newydd yn bwriadu cynnal ei ymchwil mapio ei hun.¹⁸

13. Pryder arall am fapio gweithgarwch mentrau cymdeithasol yw bod bylchau yn y ddarpariaeth mewn rhai rhannau o Gymru. O gofio bod rhannau helaeth o Gymru lle nad oes modelau traddodiadol o ddatblygu economaidd yn gwasanaethu'r cymunedau hynny, rydym yn cytuno â'r Banc Elusen bod achos dros fynd allan a helpu i lunio mentrau cymdeithasol yn y rhannau hynny o Gymru lle mae eu hangen.¹⁹

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru i nodi'n strategol ardaloedd yng Nghymru lle gallai mentrau cymdeithasol chwarae rhan bwysig mewn cymunedau lleol.

14. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig gan UnLtd²⁰ yn dadlau bod ymchwil mapio'r Llywodraeth yn tynnu sylw at yr anawsterau o ran ymdrin â mentrau cymdeithasol fel sector ar wahân. Mae'n nodi:

“Mae UnLtd yn cymryd ymagwedd wahanol; hynny yw, mae'n canolbwyntio ar yr unigolion allweddol sydd â'r syniadau, yr angerdd a'r potensial entrepreneuraidd i beri newid cadarnhaol parhaol o fewn eu cymunedau neu i ddatblygu syniadau sy'n peri newid ystyrlon. Mae UnLtd yn galw 'entrepreneuriaid cymdeithasol' ar yr unigolion.”²¹

15. Roedd UnLtd yn dadlau na fyddai mwyafrif yr unigolion a ddaw ato am gymorth (dros 60 y cant) yn cael eu hystyried yn fentrau cymdeithasol yn yr ystyr traddodiadol.²²

¹⁷ Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, paragraffau 4 a 7

¹⁸ Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 1

¹⁹ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 98, 15 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

²⁰ Hyd yma, mae UnLtd wedi buddsoddi mewn 416 o unigolion ledled Cymru. Fe'u gelwir hwy yn Ennillwyr Gwobrau

²¹ UnLtd, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 2

²² UnLtd, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 2

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud rhagor er mwyn creu amgylchedd sy'n galluogi nodi a datblygu unigolion a allai gyflawni'r rôl o entrepreneuriaid cymdeithasol a rhoi cefnogaeth barhaus iddynt.

Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol Cymru

16. Nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei thystiolaeth ysgrifenedig mai ei gweledigaeth yw gweld "mentrau cymdeithasol dynamig a chynaliadwy yn cryfhau economi gynhwysol, sy'n tyfu."²³ Nod Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol 2009 yw hwyluso twf mentrau cymdeithasol yng Nghymru,²⁴ a nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei thystiolaeth fod "cynnydd da wedi cael ei wneud yn rhoi'r camau gweithredu a argymhellwyd yn y Cynllun Gweithredu ar waith."²⁵

17. Croesawodd Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru²⁶ y Cynllun Gweithredu, a nododd Canolfan Cydweithredol Cymru²⁷ fod y Cynllun Gweithredu yn sail dda i symud ymlaen a bod angen iddi barhau i fod yn ganolbwynt i annog y sector i dyfu. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, cyfeiriodd Ymddiriedolaeth Datblygu Gorseinon at y Cynllun Gweithredu fel:

"[a] very supportive document to the sector. However, a strategy is only as good as its outputs and currently, from our experience, little action on the ground has benefited us in developing ourselves as a social enterprise."²⁸

18. Nododd papur Cwmniau Cymdeithasol Cymru fod y Cynllun Gweithredu yn:

"a good document and captures the essence of community and economic development. In general however there is still a lack of resource to support its delivery in particular to start-up

²³ Llywodraeth Cynulliad Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, paragraff 13

²⁴ Nodwyd 20 o gamau i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector mentrau cymdeithasol eu gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol

²⁵ Llywodraeth Cynulliad Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, paragraff 14

²⁶ Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 6

²⁷ Canolfan Cydweithredol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 3. Caiff Canolfan Cydweithredol Cymru ei hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu cymorth datblygu arbenigol i fentrau cymdeithasol

²⁸ Ymddiriedolaeth Datblygu Gorseinon, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 8

finance that can really support and encourage social innovation.”²⁹

19. Wrth holi leuan Wyn Jones AC, y Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, am ddiffyg targedau’r Llywodraeth i gynyddu cyfraniad mentrau cymdeithasol i’r economi, dywedodd nad oedd unrhyw ffigur penodol ganddo dan sylw ac nad oedd o blaid creu targedau artiffisial.³⁰ Nid ydym ni o blaid hynny chwaith, ond rydym o’r farn bod angen i Weinidogion greu darlun mwy positif am botensial economaidd y model busnes o fentrau cymdeithasol wrth weithredu rhaglen adnewyddu’r economi.

Rydym yn argymhell bod Gweinidogion yn diffinio lefelau’r gweithgarwch a’r canlyniadau y maent am i fentrau cymdeithasol ac entrepreneuriaid cymdeithasol eu cyflawni yn y dyfodol, gan gynnwys datblygu camau gweithredu manwl er mwyn gwireddu eu potensial, a phennu meincnodau i fesur a monitro effeithiolrwydd eu cyfraniadau i’r economi.

Arweinyddiaeth

20. Lanswyd Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru ym mis Chwefror 2010 gyda’r nod o hyrwyddo a chefnogi’r sector menter cymdeithasol yng Nghymru; caiff ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.³¹

21. Nodwyd mewn tystiolaeth ysgrifenedig gan Interlink:

“Locally, we do not see the value in developing and funding a Social Enterprise Coalition for Wales. What we require is for a local and responsive structure for new, emerging and developing social enterprises.”³²

22. Ym marn Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru roedd diffyg ffocws ac eglurder o ran lle yn Llywodraeth Cynulliad Cymru mae’r sector yn perthyn.³³

²⁹ Cwmnïau Cymdeithasol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 4

³⁰ Cofnod o’r Trafodion, paragraffau 76 ac 81, 1 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

³¹ Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu refeniw cychwynnol o £700,000 dros bedair blwyddyn ariannol

³² Interlink, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 3

³³ Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 3

23. Rydym yn deall mai Carl Sargeant AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, sy'n bennaf gyfrifol am fentrau cymdeithasol er mai'r Dirprwy Brif Weinidog fu'n rhoi tystiolaeth lafar i ni ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Pan ofynnem i'r Dirprwy Brif Weinidog am berthnasedd trawsbynciol mentrau cymdeithasol, daethom i'r casgliad bod gan sawl adran o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru – gan gynnwys datblygu economaidd, cyfiawnder cymdeithasol a llywodraeth leol, a Gwerth Cymru – rôl i'w chwarae er mwyn cefnogi'r sector.³⁴

24. Roedd Rhaglen Adnewyddu'r Economi Llywodraeth Cynulliad Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2010, yn cynnwys y paragraff a ganlyn am fentrau cymdeithasol:

“Rydym yn cydnabod y cyfraniad positif a wneir gan fentrau cymdeithasol hyfyw i economi gynaliadwy, amrywiol a chryf. Mae mentrau cymdeithasol yn dod yn fwy, ac nid yn llai, perthnasol yn yr economi fodern – wrth ddarparu atebion i ddulliau newydd a rhai sy'n canolbwyntio ar y dinesydd wrth gyflawni gwasanaethau cyhoeddus; wrth alluogi pobl leol ac adfywio cymunedau; ac wrth gyflawni amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol (2009) yn nodi ein gweledigaeth o fentrau cymdeithasol deinamig a chynaliadwy sy'n cryfhau economi.”³⁵

25. Mae UnLtd o'r farn bod gan fentrau sy'n gweithredu o dan fodel busnes cymdeithasol rôl sylweddol i'w chwarae o fewn gweledigaeth newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru i gael economi gref i Gymru.³⁶

O gofio bod mentrau cymdeithasol wedi'u nodi yn astudiaeth gwmpasu Llywodraeth Cynulliad Cymru fel ffordd o gynnal busnes, a bod cyfraniad y sector wedi'i gydnabod yn Rhaglen Adnewyddu'r Economi y Llywodraeth, rydym yn argymhell bod Gweinidogion Cymru yn symud canolbwynt polisi ac atebolrwydd mentrau cymdeithasol yn y Cabinet i'r portffolio datblygu economaidd a sefydlu uned mentrau cymdeithasol unigryw o fewn Adran yr Economi a Thrafnidiaeth.

³⁴ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 50, 1 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

³⁵ Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad newydd, 5 Gorffennaf 2010, Llywodraeth Cynulliad Cymru, tudalen 46

³⁶ UnLtd, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 2

Potensial y sector mentrau cymdeithasol

26. Mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn hyrwyddo'r model busnes cydweithredol fel:

“the way forward for the Welsh social economy in order to achieve scale, sustainability, social innovation, growth in social capital, employment opportunities and overall economic development. Advantages of cooperative business include more stable, caring and responsible employers. Cooperatives can provide greater job satisfaction and variety encouraging a stronger work commitment. They are also more responsible to the customer and the community within the business and have a focus on lifelong learning.”³⁷

27. Roedd Sefydliad Astudiaethau Cydweithredol Caerdydd yn dadlau bod busnesau cydweithredol yn cynnig y ffyrdd gorau o gadw'r gwerth economaidd uchaf yn economi Cymru, yn ogystal â chynnig buddion cymdeithasol sylweddol o ran hyder, lles a datblygu sgiliau cymdeithasol ac economaidd.³⁸

28. Rhestrodd Canolfan Cydweithredol Cymru amryw o gyfleoedd ar gyfer mabwysiadu dulliau mentrau cymdeithasol – tai cymdeithasol a chymunedol; busnesau cymunedol drwy brynu tafarnau, siopau a swyddfeydd post; trosglwyddo asedau; buddsoddiad cymunedol mewn clybiau pêl-droed ac ynni adnewyddadwy; cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus; cynhwysiant ariannol; perchnogaeth gymunedol o wasanaethau digidol; a thrawsnewid busnesau yn fusnesau cydweithredol.³⁹

29. Roedd Cymoedd Gwyrdd yn dadlau y gallai mentrau cymdeithasol ddarparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig drwy gynnig mwy o wasanaeth am gostau is.⁴⁰ Dywedodd Adele Blakebrough, Cadeirydd Breakthrough,⁴¹ wrthym fod ailgylchu ac iechyd meddwl yn feysydd ar gynnydd yn y sector, ond bod sectorau arbenigol eraill – cyffuriau,

³⁷ Canolfan Cydweithredol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 3

³⁸ Sefydliad Astudiaethau Cydweithredol Caerdydd, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 2

³⁹ Canolfan Cydweithredol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 2

⁴⁰ Y Cymoedd Gwyrdd, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 2

⁴¹ Mae Breakthrough yn fenter ar y cyd rhwng y Rhwydwaith Gweithredu Cymunedol (CAN), sy'n fenter gymdeithasol, a chwmni ecwiti preifat Permira, sy'n darparu cyllid a chymorth rheoli er mwyn helpu mentrau cymdeithasol sydd wedi'u sefydlu i dyfu a gwneud y mwyaf o'u heffaith gymdeithasol.

gofal henoed a gwasanaethau hosbis, darpariaethau cyn ac ar ôl ysgol a marchnadoedd ffermwyr – yn addas ar gyfer y model busnes.⁴²

30. Nododd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru bod:

“Other opportunities, particularly in the public expenditure climate in which we are operating, are around whether social enterprise, co-operative or third sector approaches can offer different ways of providing services that might be squeezed by the current spend. That is particularly the case in the arts and leisure spheres, which one senses could be areas that are hit first. There may be options for alternative organisations to run those services. We know that that has happened with leisure provision elsewhere in the UK, for example.”⁴³

31. Wrth holi Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru os mai ffordd o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn rhad oedd hyn, eu hymateb oedd:

“in some areas it may be a question of whether the only possibility is that a particular service closes down and all jobs are lost, or whether there is an alternative way of providing some services that maintains some jobs.”⁴⁴

32. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn cydweithio â'r TUC i lunio siarter ar y mater sensitif hwn er mwyn sicrhau nad yw cyfraniad cymunedol, sydd mor bwysig i gadw a datblygu rhai o'r gwasanaethau hyn, yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n fygythiad i swyddi presennol.

Rydym yn argymhell nad yw'r potensial sydd gan fentrau cymdeithasol yn cael ei weld fel modd o lyncu gwasanaethau sydd angen eu darparu'n rhatach, ond yn ffordd o ddatblygu dulliau o ddarparu gwasanaethau sy'n newydd, yn arloesol ac yn fwy effeithiol.

Trosglwyddo asedau

33. Nododd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru y gallai trosglwyddo asedau o'r sector cyhoeddus i berchnogaeth gymunedol

⁴² Cofnod o'r Trafodion, paragraffau 203 i 207, 1 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁴³ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 16, 8 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁴⁴ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 22, 8 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

ddarparu llwyfan er mwyn cynnal sefydliadau a gwasanaethau cymunedol, gyda'r potensial o greu incwm a chynyddu asedau cyfalaf.⁴⁵ Dywedodd y Banc Elusen wrthym:

“Banks and other financial institutions will run to an enterprise or area where there has been an asset transfer, because the asset gives security.”⁴⁶

34. Cyfeiriwyd yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru at drosglwyddo a datblygu asedau fel cyfleoedd i fentrau cymdeithasol: gallant wneud cais am gyllid er mwyn trosglwyddo asedau fel tir ac adeiladau o sefydliadau yn y sector cyhoeddus i berchnogaeth gymunedol o dan y rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol sy'n werth £13 miliwn.⁴⁷ Soniodd Canolfan Cydweithredol Cymru⁴⁸ a Chymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru⁴⁹ hefyd am y cyfleoedd y mae trosglwyddo asedau yn eu rhoi i fentrau cymdeithasol dyfu eu busnesau, cynhyrchu incwm a rhoi grym i gymunedau.

35. Nododd Galeri bod cymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru i drosglwyddo asedau ar lefel polisi yn ddiamheuol, ond bod diffyg canllawiau ymarferol ar sut y gall trosglwyddo asedau gael ei weithredu'n ymarferol.⁵⁰

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod adrannau'r Llywodraeth, awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol yn gwbl eglur ynghylch sut mae trosglwyddo asedau.

Darparu gwasanaethau cyhoeddus

36. Cyfeiriodd tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru at adroddiad gan Ganolfan Cydweithredol Cymru a oedd yn nodi cyfleoedd sectoraidd a daearyddol posibl er mwyn cynyddu cyfraniad busnesau cydweithredol a mentrau cymdeithasol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus megis gofal, gwasanaethau personol, tai,

⁴⁵ Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, paragraff 12

⁴⁶ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 74, 15 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁴⁷ Llywodraeth Cynulliad Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, paragraff 6. Mae'r rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr

⁴⁸ Canolfan Cydweithredol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 2

⁴⁹ Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 7

⁵⁰ Galeri Caernarfon Cyf, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 3

cynhwysiant ariannol, meysydd yn ymwneud ag iechyd, trafniadaeth, yr amgylchedd, gwasanaethau hamdden, marchnadoedd llafur trosiannol a masnachu moesegol/masnach deg.⁵¹ Roedd Co-operatives and Mutuels Wales hefyd o'r farn bod nifer o gyfleoedd i fusnesau cydweithredol a chwmnïau cydfuddiannol fod yn rhan o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus amrywiol.⁵²

37. Roedd Awel Aman Tawe o'r farn bod prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol yn faes allweddol ar gyfer datblygu mentrau cymdeithasol, gan nodi profiad yr Alban, sydd â bron i 30 megawat o bŵer gwynt a hydro yn eiddo i fentrau cymdeithasol, gyda rhagor yn y broses gynllunio. Fodd bynnag, y teimlad oedd bod angen i'r Llywodraeth wthio'r mater yng Nghymru er mwyn i'r sector gael symud yn ei flaen yn iawn.⁵³ Roedd yn awgrymu bod mentrau ar y cyd rhwng sefydliadau cymunedol a datblygwyr masnachol yn un ffordd ymlaen – dull sy'n cael ei ddefnyddio yn yr Alban – ac yn ffordd o ddelio â'r risgiau sydd ynghlwm â phrosiectau arfaethedig.⁵⁴

38. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn awgrymu bod cyfle i'r trydydd sector neu fentrau cymdeithasol ddarparu gwasanaethau sector cyhoeddus ar y sail y byddai hyn yn rhoi mwy o botensial i ddarparu gwasanaethau teilwredig er mwyn diwallu amgylchiadau ac anghenion penodol cymunedau; defnyddio contractio sector cyhoeddus fel hwb i fod yn fwy cynaliadwy; y posibilrwydd o gynnig gwell gwerth am arian cyhoeddus; a defnyddio rhagor o gymorth ac adnoddau o'r gymuned.⁵⁵

39. Nododd y Banc Elusen yn ei dystiolaeth am y sector mentrau cymdeithasol:

“[it] will not act as a wholesale substitute for current models of public service delivery but it has the potential to augment and complement significant parts. A necessary condition for this transformation is access to long-term, sympathetic capital.”⁵⁶

40. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, nododd Cyngor Mentrau Cymdeithasol Cymru “we are a nation of small and medium-sized

⁵¹ Llywodraeth Cynulliad Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, paragraff 7

⁵² Co-operatives and Mutuels Wales, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 5

⁵³ Awel Aman Tawe, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalennau 2 a 3

⁵⁴ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 209, 22 Medi 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁵⁵ Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, paragraff 10

⁵⁶ Y Banc Elusen, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalennau 5 a 6

enterprises and are ill-equipped to take on, as an example, the role of an important public service provider.”⁵⁷ Yn ddiweddarach yn ein cyfarfod, tynnodd y Gynghrair y term “ill-equipped” yn ôl gan ddweud mai mater o ddiffyg maint ydoedd.⁵⁸

41. Nododd UnLtd yn ei thystiolaeth ysgrifenedig bod:

“angen datblygu ymagweddau arloesol at faterion cymdeithasol trwy’r sectorau cyhoeddus, preifat, menter gymdeithasol a gwirfoddol. Mae entrepreneuriaid yn hanfodol i hyn ac mae angen creu amgylchedd sy’n caniatáu i feddwl newydd a syniadau newydd gael eu meithrin a’u datblygu.”⁵⁹

42. Gwnaeth Adele Blakebrough bwynt tebyg pan ddywedodd am rôl mentrau cymdeithasol:

“[social enterprise] is not about the voluntary sector or the social enterprise sector taking over from the public sector – the third sector is not big enough to do that, even if it wanted to. It is much more about imaginative collaborations and removing some of the barriers that have existed in the past.”⁶⁰

43. Roedd diddordeb gennym i glywed a oedd effeithiau mentrau cymdeithasol, o ran darparu gwasanaethau a arferai gael eu darparu gan y sector cyhoeddus, yn cael eu coladu a’u gwerthuso mewn unrhyw ffordd ystyrlon.

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn comisiynu gwaith ymchwil i effaith economaidd-gymdeithasol mentrau cymdeithasol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys adborth gan staff o fewn y sefydliadau hynny a chleientiaid sy’n derbyn y gwasanaethau.

Caffael sector cyhoeddus

44. Tynnwyd ein sylw yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru at y ffaith bod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn

⁵⁷ Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 4

⁵⁸ Cofnod o’r Trafodion, paragraff 152, 15 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁵⁹ UnLtd, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 5

⁶⁰ Cofnod o’r Trafodion, paragraff 141, 1 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

gwario tua £4.3 biliwn y flwyddyn ar wasanaethau a nwyddau allanol.⁶¹
Nododd Adele Blakebrough yn ei phapur:

“Procurement is a particularly important issue for social enterprises in Wales where the public sector is such a large provider of services. We need to encourage the public sector to include more social enterprises when contracting out services. In their turn social enterprises need to ‘up their game’ in relation to the size and scale that the public sector requires for successful partnering.”⁶²

45. Nododd Cwmnïau Cymdeithasol Cymru:

“Many smaller social enterprises would be unable to deliver large value contracts, however could grow good business by securing and delivering several smaller value contracts. Clustering needs to be encouraged, where several smaller enterprises work together to deliver larger value contracts. There needs to be a higher awareness and a commitment for procurers and commissioners to use the powers of Article 19 (reserved contracts)⁶³ therefore giving a real opportunity for companies to grow and prosper that employ a large number of disabled personnel.”⁶⁴

46. Nododd Awel Aman Tawe:

“We have been on a number of courses on tendering, but do not have the capacity or time to submit tenders. My assessment is that we are very unlikely to win as we are too small and I do not see much evidence of social enterprises winning these contracts in Wales, unlike England. The process is bureaucratic and at present, is a waste of our time.”⁶⁵

⁶¹ Llywodraeth Cynulliad Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, paragraff 21. Rhaglen ‘Gwerth Cymru’ Llywodraeth Cynulliad Cymru sy’n llywio polisi caffael ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru

⁶² Adele Blakebrough, tystiolaeth ysgrifenedig, paragraff 7

⁶³ Mae Erthygl 19 o’r rheoliadau Ewropeaidd yn caniatáu i Aelod Wladwriaethau gadw’r hawl i gymryd rhan mewn gweithdrefnau tendro i fusnesau a ffatrioedd cynaledig – hynny yw, ni chaiff yr un darparwr arall dendro. Mae “cynaledig” yn golygu bod 50 y cant o’r gweithwyr yn methu ag ymgymryd â gwaith yn y farchnad lafur agored oherwydd anabled

⁶⁴ Cwmnïau Cymdeithasol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 4

⁶⁵ Awel Aman Tawe, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 2

47. Roedd Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru hefyd o'r farn bod "nifer o'n haelodau mwy a'r rhai mwy profiadol wedi ei chael hi'n anodd cael gaffael ar gaffael sector gyhoeddus ac ennill cytundebau." Credai fod llawer i'w wneud o hyd o ran codi ymwybyddiaeth o botensial mentrau cymdeithasol i ddarparu; adeiladu cymalau cymdeithasol ac amgylcheddol i gaffael; gwreiddio caffael cynaliadwy ar draws y sector cyhoeddus; datblygu strategaethau a pholisïau caffael sy'n edrych i'r dyfodol, a hyfforddi mentrau cymdeithasol a swyddogion caffael y sector cyhoeddus.⁶⁶ Roeddem yn ddiolchgar am y dystiolaeth ychwanegol a gafwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog am y cynnydd a wnaed yn y maes hwn gan Gwerth Cymru.⁶⁷

48. Gwelodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yr angen am drefniadau caffael teg a phriodol.⁶⁸ Nododd Cyngorhairs Mentrau Cymdeithasol Cymru fod y broblem o ddiffyg ymwybyddiaeth o fentrau cymdeithasol ymhlith caffaelwyr yn creu maen tramgwydd i fentrau cymdeithasol rhag cael eu cynnwys wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.⁶⁹ Dywedodd Nofit State nad oeddent wedi trafferthu tendro am gontractau gwasanaethau cyhoeddus.⁷⁰

Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy Gwerth Cymru, wedi gwella caffael sector cyhoeddus, ond rydym yn argymhell y dylid herio pob corff cyhoeddus i wneud eu polisïau a'u harferion caffael yn fwy agored i fentrau cymdeithasol, a bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio â Chyngorhairs Mentrau Cymdeithasol Cymru i sicrhau y gall mentrau cymdeithasol gystadlu'n well am gontractau sector cyhoeddus.

49. Dywedodd Awel Aman Tawe fod yr hyfforddiant caffael y mae wedi ei gael wedi'i gynllunio ar gyfer cwmnïau mwy sydd â phobl a all arbenigo mewn tendrau ac sydd â'r amser i ganolbwyntio ar ei wneud yn iawn.⁷¹

Rydym yn argymhell ymhellach bod yr hyfforddiant a'r cymorth caffael mae Gwerth Cymru yn ei ddarparu yn cael ei deilwra i ddiwallu anghenion penodol y sector mentrau cymdeithasol, gan

⁶⁶ Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, tudalen 8

⁶⁷ Llywodraeth Cynulliad Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol

⁶⁸ Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, paragraff 11

⁶⁹ Cyngorhairs Mentrau Cymdeithasol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 4

⁷⁰ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 141, 22 Medi 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁷¹ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 131, 22 Medi 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

gynnwys darparu cymorth a fydd yn galluogi mentrau cymdeithasol i gydweithio wrth wneud cynnig am contractau.

50. Awgrymodd Cwmnïau Cymdeithasol Cymru fod gormod o bwyslais yn cael ei roi ar gaffael gan y sector cyhoeddus yn unig a bod cyfleoedd hefyd i gyflenwi amrywiaeth eang o nwyddau a gwasanaethau i fusnesau yn y sector preifat.⁷² Roeddem yn falch o glywed y Dirprwy Brif Weinidog yn dweud ei fod am weld mentrau cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau contractau gan y sector preifat.⁷³

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cymryd camau i gefnogi ac annog mentrau cymdeithasol i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd caffael a ddaw o'r sector preifat.

Model Glas Cymru

51. Mae Glas Cymru yn gwmni un pwrpas a gafodd ei sefydlu i fod yn berchen ar Dŵr Cymru a'i gyllido a'i reoli. Mae'n darparu dŵr a gwasanaeth carthffosiaeth i fwyafrif o ardaloedd Cymru a rhai ardaloedd o Loegr sy'n ffinio â Chymru. Mae'n gwmni cyfyngedig drwy warant o dan y Ddeddf Cwmnïau ac yn berchen ar asedau sydd werth tua £25 biliwn.⁷⁴ Gan nad oes gan y cwmni randdeiliaid, caiff unrhyw arian dros ben ei gadw yn y cwmni er budd cwsmeriaid Dŵr Cymru. O dan berchnogaeth Glas Cymru, caiff asedau a buddsoddiad cyfalaf Dŵr Cymru eu hariannu gan fondiau ac arian dros ben a gaiff ei gadw. Nod model busnes Glas Cymru yw lleihau costau cyllido asedau Dŵr Cymru – cost unigol mwyaf y diwydiant dŵr.

52. Nododd Dŵr Cymru yn ei bapur cefndir:

“To date no other privatised water company has adopted our ‘not for profit’ model, although it has recently been recommended for Scotland Water by the Scottish Futures Trust, but I do not believe this is due to any lack of institutional or political support for our model.”⁷⁵

53. Dywedodd Glas Cymru wrthym:

⁷² Cwmnïau Cymdeithasol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 4

⁷³ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 13, 1 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁷⁴ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 11, 22 Medi 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁷⁵ Dŵr Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, paragraff 4

“There is no question that a monopoly, being run for profit, requires a higher cost of capital than a not-for-profit company providing a public service. The risk that investors see is very different indeed. If you are a monopoly making a lot of profit, you attract political risk and that political risk is then priced into the cost of capital; you can see the vicious circle that we are talking about.”⁷⁶

54. Un o gamau gweithredu Cynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru oedd y byddai'n archwilio sut y gellir efelychu model Glas Cymru er mwyn hybu agweddau ar foderneiddio gwasanaethau cyhoeddus. Roedd Glas Cymru o'r farn bod gan ei fodel busnes botensial yn y farchnad ynni oherwydd bod cwmnïau â statws di-elw yn llwyddo'n well o ran dilysrwydd a chynhwysiant cymunedol na chwmnïau sy'n gwneud elw. Roedd hefyd o'r farn ei fod mewn sefyllfa well i wneud penderfyniadau hir dymor na chwmni cystadleuol byr dymor sydd â rhanddeiliaid. Er i Glas Cymru nodi:

“counter to that is that when we bought Dŵr Cymru back in 2001, it was an established business with an established cash flow within a stable, regulatory environment. That lent itself to being able to finance the asset base with low-risk bond finance. If you are in the energy market and in a start-up situation, where you do not know the risks around revenues and construction costs, for example, that is a very different proposition indeed and bond investors of the sort that we rely upon would not be interested in that marketplace.”⁷⁷

55. Mae buddion eraill model Glas Cymru yn cynnwys buddion i'r cwsmer sy'n deillio o gael model darparu ar gyfer mentrau cymdeithasol,⁷⁸ manteision ei strwythur llywodraethu sydd â mwyafrif o gyfarwyddwr anweithredol ar y bwrdd, ei fuddsoddwyr a chraidd o aelodaeth gref.⁷⁹

56. O ran rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru i ledaenu model Glas Cymru i feysydd eraill, roedd Glas Cymru o'r farn:

⁷⁶ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 19, 22 Medi 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁷⁷ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 21, 22 Medi 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁷⁸ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 81, 22 Medi 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁷⁹ Cofnod o'r Trafodion, paragraffau 86 i 98, 22 Medi 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

“you cannot promote or make social enterprise happen from the side-lines. Government does not make these things happen; it is down to individuals.[...].The best that the Government can do is to give these things a fair wind.”⁸⁰

O gofio am lwyddiant model Glas Cymru, rydym o’r farn ei fod yn cynnig atebion i heriau strwythurol eraill. Rydym yn argymhell bod Gweinidogion Cymru yn parhau i archwilio’r posibilrwydd o drosglwyddo model Glas Cymru, amlygu’r mathau o gefnogaeth sydd eu hangen i lwyddo mewn sefyllfaoedd eraill, a hyrwyddo ymwybyddiaeth o’r model ymysg penderfynwyr allweddol.

Ysbrydoli pobl ifanc

57. Dywedodd Adele Blakebrough wrthym y gellir gwneud llawer mwy i ysbrydoli pobl ifanc i gael profiad o fentrau cymdeithasol, er enghraifft galluogi disgyblion i redeg siop masnach deg mewn ysgolion uwchradd, neu drwy annog graddedigion ac is-raddedigion i weithio mewn menter gymdeithasol; rhoddodd enghreifftiau o hyn yn gweithio’n effeithiol yn Rhydychen ac Ysgol Economeg Llundain.⁸¹

58. Nododd UnLtd bwysigrwydd datblygu “ton newydd o entrepreneuriaid cymdeithasol eu meddylfryd” ac edrych ar Strategaeth Entrepreneuriaeth leuenctid i Gymru i “ysbrydoli’r genhedlaeth nesaf o arweinwyr busnes cymdeithasol”.⁸² Dywedodd UnLtd wrthym:

“11 to 15-year-olds seem to be quite entrepreneurial, and then we seem to lose them. I think that there is a big gap in the 14-to-15 age range that we could really tackle.”⁸³

59. Roedd Nofit State o’r farn bod Bagloriaeth Cymru yn gyfle i hyrwyddo entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc.⁸⁴

Rydym yn argymhell y dylai addysg fenter gynnwys mentrau cymdeithasol ac entrepreneuriaeth ac y dylid cynnwys mentrau cymdeithasol yng ngwasanaethau cyngori ar yrfaedd a rhaglenni profiad gwaith ysgolion a phrifysgolion.

⁸⁰ Cofnod o’r Trafodion, paragraff 39, 22 Medi 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁸¹ Cofnod o’r Trafodion, paragraffau 165 i 169, 1 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁸² UnLtd, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 4

⁸³ Cofnod o’r Trafodion, paragraff 148, 22 Medi 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁸⁴ Cofnod o’r Trafodion, paragraff 151, 22 Medi 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

Yr heriau sy'n wynebu mentrau cymdeithasol yng Nghymru

Maint

60. Yn ôl ymchwil mapio Llywodraeth Cynulliad Cymru dim ond 21 y cant o fentrau cymdeithasol dros 16 oed sy'n cynhyrchu rhwng 15 a 25 y cant o'u hincwm masnachu. Mae'r ffigur isel hwn yn codi amheuaeth a ddylid eu galw'n "fentrau" cymdeithasol o gwbl, fel nododd Jerr Boschee amdanynt:

"How many are really businesses that are able to compete independently in the marketplace versus how many of them are still being propped up by the old ways of doing things.

"If we are to see a significant shift away from the traditional ways of doing things, then social enterprises will have to leap further into the ocean, as it were, and take more risks than they are taking today."⁸⁵

61. Roedd Jerr Boschee yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgymryd â nifer o rolau i gefnogi menter cymdeithasol, er enghraifft bod yn addysgwr ac yn gatalydd, darparu cymorth technegol a chyfalaf cychwynnol, mesur a monitro effaith gymdeithasol ac annog gwneud elw.⁸⁶ Awgrymodd hefyd y gallai'r Llywodraeth gyflwyno proses ardystio fel sy'n Lloegr. Roedd diddordeb gennym felly glywed gan Gynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru y bydd y Marc Menter Cymdeithasol yn help i sefydlu mentrau cymdeithasol, fel ddigwyddodd gyda'r symbol Masnach Deg.⁸⁷

62. Dywedodd Adele Blakebrough wrthym ei bod am weld mentrau cymdeithasol Cymreig yn datblygu y tu hwnt i Gymru, ac er bod rhai mentrau'n addas ar gyfer y math hwnnw o ehangu, nid oes cynllun ehangu strategol ar gael er mwyn caniatáu i hynny ddigwydd.⁸⁸ Roedd tystiolaeth ysgrifenedig y Banc Elusen yn cydnabod bod yn rhaid i fentrau cymdeithasol fynd i'r afael â'r her o ehangu os ydynt am

⁸⁵ Cofnod o'r Trafodion, paragraffau 207 i 208, 8 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁸⁶ Cofnod o'r Trafodion, paragraffau 207 i 208, 8 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁸⁷ Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 5

⁸⁸ Cofnod o'r Trafodion, paragraffau 161 i 162, 1 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

gyflawni eu potensial, gan ddefnyddio cyfalaf datblygu i fod yn gynaliadwy yn ariannol a gwella sgiliau rheoli a llywodraethu.⁸⁹

63. Yn ei phapur, nododd Adele Blakebrough:

“There are many well established social enterprises in Wales e.g. Pack-It, Frame, Track 2000, who have reached a certain stage of development and have stayed fixed at that level for some time. If social enterprises are to thrive we need to see them developing their full potential and to do this we need to look at the reasons why, unlike many of their business counterparts, they are remaining fairly small.

“Social enterprises need support to overcome barriers to growth which are both internal and external including: access to finance, lack of positive role models, inexperience in relation to growth tools such as mergers and acquisitions and governance structures that are designed not to encourage risk taking.”⁹⁰

64. Dywedodd Canolfan Cydweithredol Cymru wrthym am “fentrau” cymdeithasol nad oedd yn masnachu’n ddigonol:

“There is a clear challenge to raise the skill levels within these organisations. From a financial perspective, we really have to strengthen the balance sheets of these organisations...as any private sector small or medium-sized enterprise...through asset development, asset transfer and asset ownership. If they have a product, a market and are charging for services, we should strengthen them through loans and equity.”⁹¹

65. Nododd Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru nifer o heriau sy’n wynebu mentrau cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys yr angen i:

“[d]atblygu’r sgiliau, craffter busnes, ‘parodrwydd i fuddsoddi’ a hyder y sector ei Fyrddau a’i staff i fynd i’r afael ag asedau a datblygu mentrau newydd.”⁹²

⁸⁹ Y Banc Elusen, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 4

⁹⁰ Adele Blakebrough, tystiolaeth ysgrifenedig, paragraffau 2 a 5

⁹¹ Cofnod o’r Trafodion, paragraff 97, 8 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁹² Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 5

66. Roedd Jerr Boschee yn credu mai nid mynediad at gyfalaf oedd y brif broblem sy'n wynebu mentrau cymdeithasol:

“What you really need is a strong business plan and a strong management team, a genuine market opportunity and a competitive advantage.”⁹³

Mynediad at gyllid

67. Daeth ymchwil mapio Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r casgliad mai mynediad at ffynonellau addas o gyllid oedd un o'r prif heriau sy'n wynebu mentrau cymdeithasol rhag llwyddo a bod yn gynaliadwy. Canfyddiad arall gan yr ymchwil oedd bod yn llawer gwell gan sefydliadau gael grantiau craidd yn hytrach na benthyciadau.

68. Nodwyd yn nhystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru mai bwriad y gronfa Buddsoddi i Arbed yw datblygu diwylliant sy'n buddsoddi mewn sefydliadau yn y trydydd sector sy'n llai dibynnol ar grantiau tymor byr.⁹⁴ Roedd hyn yn cydfynd â barn Canolfan Cydweithredol Cymru sef mai'r hyn sydd ei angen yw:

“shift reliance from grant to entrepreneurial activity and to consider loan and equity finance. There is a need to develop the skills of individuals to improve the enterprise of social enterprise and to reach out to nurture potential social entrepreneurs and cooperators.”⁹⁵

69. Mae Nofit State o'r farn:

“If you have a culture of grants dependency, then you will develop the skills that enable you to get funding successfully and to develop good relationships with funders. Those may not be the same skills needed to develop a successful enterprise.”⁹⁶

Aeth ymlaen i ddatgan bod rhaid defnyddio'r arian a roddir fel buddsoddiad yn hytrach na chreu ffurf ar ddibyniaeth sy'n cefnogi patrymau gweithio anghynhyrchiol.⁹⁷

⁹³ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 191, 8 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁹⁴ Llywodraeth Cynulliad Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, paragraff 10

⁹⁵ Canolfan Cydweithredol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 3

⁹⁶ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 161, 22 Medi 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

⁹⁷ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 172, 22 Medi 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

70. Mae Cwmnïau Cymdeithasol Cymru hefyd o'r farn bod angen symud oddi wrth y diwylliant grantiau traddodiadol, a bod llawer gormod o bwyslais yn cael ei roi ar geisiadau grant sy'n tynnu sylw oddi wrth adeiladwaith masnachol y model busnes. Roedd yn teimlo mai cymysgedd o grantiau a benthyciadau masnachol a benthyciadau meddal sy'n canolbwyntio ar adeiladu busnesau a reolir gan y farchnad fyddai fwyaf delfrydol.⁹⁸ Dywedodd Cwmnïau Cymdeithasol Cymru wrthym wedyn y byddai'n teimlo'n bryderus am gael gwared ar grantiau'n gyfan gwbl.⁹⁹ Roedd Awel Aman Tawe hefyd o'r farn bod grantiau'n bwysig.¹⁰⁰

71. Roedd Cymdeithas Marchnad Gymunedol Glan yr Afon yn credu bod angen "a programme of Government-funded mentoring support for new social enterprises from the managers of existing and successful social enterprises and...access to low or no interest loans combined with small but easily accessible start-up grants."¹⁰¹

72. Roedd Cymoedd Gwyrdd o'r gred mai arian hadu oedd y prif her sy'n wynebu mentrau cymdeithasol, a bod grantiau'n rhy gyfyng i fenter ddatblygu, gan fod mentro, yn ei hanfod, yn ansicr:

"Social enterprise will only prosper in the long run if it becomes economically sustainable. This means being independent of grants.[...].What is needed is a social enterprise investment fund – rigorous, professional, entrepreneurial and selecting the best social enterprises for development with equity and long-term loan finance."¹⁰²

73. Dywedodd Cymoedd Gwyrdd – sydd ei hun yn ddyledus i wobr o £300,000 a enillodd yng nghystadleuaeth yr Her Werdd Fawr, a arianwyd gan y Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau (NESTA):

"I do not want grant funding or project funding to disappear, but that is no way to build a social enterprise that is going to trade."¹⁰³

⁹⁸ Cwmnïau Cymdeithasol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 4

⁹⁹ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 93, 8 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

¹⁰⁰ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 161, 22 Medi 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

¹⁰¹ Cymdeithas Marchnad Gymunedol Glan yr Afon, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 1

¹⁰² Y Cymoedd Gwyrdd, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 3

¹⁰³ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 19, 15 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

74. Roedd am weld benthyciadau hir dymor neu fenthyciadau “meddal” ar gael, yn hytrach na benthyciadau â chyfradd llog masnachol.¹⁰⁴ Clywsom wedyn gan y Banc Elusen ei fod yn ystyried creu cronfa “mezzaninie” i’r perwyl hwnnw.¹⁰⁵ Mae ei raglen buddsoddi mewn partneriaeth gyda Cylch, y rhwydwaith ailgylchu cymunedol – sy’n cynnig cyfuniad o fenthyciadau, grantiau a hyfforddiant – eisoes wedi derbyn croeso gan aelodau Cylch.¹⁰⁶

75. Dywedodd Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru wrthym mai dim ond dau gorff a oedd yn ymchwilio i fentrau cymdeithasol bum mlynedd yn ôl, ond erbyn hyn, mae’r ffigur hwnnw wedi codi i 12.¹⁰⁷

76. Nododd Adele Blakebrough fod y saith menter gymdeithasol sy’n elwa’n ariannol, ac o ran cymorth sgiliau, drwy gronfa buddsoddi Breakthrough wedi gweld cynnydd blynyddol o 22 y cant ar gyfartaledd mewn refeniw yn lle’r cynnydd cyfartalog o 8 y cant y mae’r sector gwirfoddol wedi’i weld. Maent hefyd wedi gweld cynnydd blynyddol o 29 y cant yn eu heffaith gymdeithasol.¹⁰⁸

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dysgu oddi wrth gronfeydd buddsoddi eraill ac yn adolygu’r cymorth ariannol mae’n ei gynnig i fentrau cymdeithasol er mwyn bodloni eu hanghenion yn fwy priodol o ran cymorth i ddechrau a datblygu. Dylai’r adolygiad hwn gynnwys cynigion ar gyfer gwella gwybodaeth rheoli ariannol mentrau cymdeithasol fel eu bod yn fwy hyderus wrth wneud cais am fenthyciadau masnachol a chyllid ecwiti.

77. Roedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn dadlau bod banciau masnachol yn “ddarniog’ o ran eu hawydd i ddarparu cyllid” i fentrau cymdeithasol gan fod cymaint yn ddibynnol ar “wybodaeth leol ac ar ddealltwriaeth unigolion o’r sector”. Roedd yn argymhell felly y

¹⁰⁴ Cofnod o’r Trafodion, paragraff 29, 15 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

¹⁰⁵ Cofnod o’r Trafodion, paragraff 72, 15 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

¹⁰⁶ Y Banc Elusen, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalennau 3 i 4

¹⁰⁷ Cofnod o’r Trafodion, paragraff 140, 8 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

¹⁰⁸ Adele Blakebrough, tystiolaeth ysgrifenedig, paragraff 3. Mesurwyd effaith gymdeithasol drwy ddefnyddio’r fethodoleg *Social Return on Investment* (SROI)

“byddai ymgyrch gan fanciau’r brif ffrwd i addysgu eu staff yn helpu.”¹⁰⁹ Roedd Co-operatives and Mutuals Wales hefyd o’r un farn.¹¹⁰

78. Roedd Canolfan Cydweithredol Cymru yn credu y gallai banc y bobl neu fanc dinasyddion ddaparu ffocws i gynorthwyo busnesau bach yn y sector cymdeithasol.¹¹¹ Dywedodd y Banc Elusen wrthym:

“There is a very strong case for, at the minimum, looking at the possibility of a new Wales-based financial institution that can properly manage and tap into...latent Welsh savings and recycle them for the benefit of communities in Wales.”¹¹²

79. Roedd Sefydliad Astudiaethau Cydweithredol Caerdydd yn argymhell datblygu ymddiriedolaethau buddsoddi i weithwyr sy’n debyg i ymddiriedolaethau buddsoddi i lafur – cronfeydd sy’n “a democratised form of investment controlled by and serving the needs of labour and its communities in preference to those of traditional finance capital.”¹¹³ Roedd yn dadlau y byddai’r dull hwn yn helpu i angori cyfalaf yn lleol.

Yn wyneb y cynnydd posibl yn y galw am gymorth ariannol, a chpasiti’r banciau presennol i ddarparu hynny, rydym yn credu bod lle i greu system ariannu bwrpasol ar gyfer y sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn argymhell, fel rhan o’r adolygiad ariannol yr ydym wedi sôn amdano uchod, bod Gweinidogion yn ymateb i’r cynnig am system ariannol bwrpasol drwy baratoi dadansoddiad cost a budd o’r opsiynau.

Cymorth busnes

80. Cafwyd sawl barn wahanol am rôl Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i ddarparu cymorth busnes i fentrau cymdeithasol: mae ymchwil mapio Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi mai Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yw’r brif ffynhonnell o gymorth, yn ogystal â’r cyngorau gwirfoddol sirol.¹¹⁴ Fodd bynnag, roedd Canolfan

¹⁰⁹ Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, paragraff 14

¹¹⁰ Co-operatives and Mutuals Wales, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 3

¹¹¹ Cofnod o’r Trafodion, paragraff 110, 8 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

¹¹² Cofnod o’r Trafodion, paragraff 78, 15 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

¹¹³ Sefydliad Astudiaethau Cydweithredol Caerdydd, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 5

¹¹⁴ Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, paragraff 1

Cydweithredol Cymru'n dadlau bod cymorth y Cyngor Gweithredu yn canolbwyntio ar sefydliadau gwirfoddol a'u helpu tuag at hyfywedd ariannol annibynnol, tra bod rhaid i Ganolfan Gydweithredol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru weithredu ar y cyd i sicrhau bod gwasanaethau gwahanol a gwasanaethau cymorth sy'n ychwanegu gwerth i'r cleient yn cael eu cyflenwi'n ddi-drafferth.¹¹⁵ Nododd sawl tyst bryder bod y cymorth arbenigol sy'n cael ei gynnig gan Ganolfan Gydweithredol Cymru wedi'i gyfyngu i'r ardaloedd Cydgyfeirio yng Nghymru am ei fod yn cael ei ariannu gan gronfeydd strwythurol Ewropeaidd.¹¹⁶

81. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ei bod yn hanfodol i sefydliadau yn y trydydd sector (o unrhyw fath) gael mynediad at y cymorth angenrheidiol er mwyn gwella eu sgiliau busnes a masnachol, ac i nodi a gwneud y mwyaf o'r holl ffynonellau ariannol sydd ar gael iddynt, gan gynnwys masnachu nwyddau a gwasanaethau. Roedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn cynnig bod angen gwell trefn ar y mathau gwahanol o gymorth sydd ar gael i fentrau cymdeithasol – gwasanaethau seilwaith yn y trydydd sector, gwasanaethau cymorth busnes a chymorth arbenigol – yn hytrach na chreu unrhyw wasanaethau newydd.¹¹⁷

82. Roedd papur UnLtd yn awgrymu y gallai fod yn “hynod anodd” i entrepreneuriaid â syniadau cynnar gael y wybodaeth a'r cyngor cychwynnol cywir. O ystyried yr holl sefydliadau sy'n gweithredu ar hyn o bryd, nododd ei bod yn “ddryslyd iawn” gwybod at pwy i droi.¹¹⁸ Roedd Galeri yn ystyried bod nifer y sefydliadau, asiantaethau ac arbenigwyr sy'n cynnig cymorth yn achosi penbleth.¹¹⁹

83. Barn y Banc Elusen am y cyllid a'r cymorth cyngorol sydd ar gael i fentrau cymdeithasol oedd ei fod yn dameidiog.¹²⁰ Roedd Cyngor Mentrau Cymdeithasol Cymru o'r farn bod cymorth busnes cynhwysfawr a phriodol yn brin ac yn anghyson, a bod diffyg gwybodaeth glir ar wefannau o lle dylai mentrau cymdeithasol fynd i gael cyngor busnes. Mynegodd bryderon hefyd am y diffyg gwybodaeth am fentrau cymdeithasol sydd gan asiantaethau cymorth,

¹¹⁵ Canolfan Cydweithredol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 4

¹¹⁶ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 150, 15 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

¹¹⁷ Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, paragraffau 7 a 22

¹¹⁸ UnLtd, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 3

¹¹⁹ Galeri Caernarfon Cyf, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 4

¹²⁰ Y Banc Elusen, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 5

a'r diffyg parodrwydd neu ddiddordeb sydd gan yr asiantaethau hynny i ddatblygu eu gwybodaeth.¹²¹

84. Awgrymodd Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru fod ymarferwyr mentrau cymdeithasol yn gwerthfawrogi cymorth sydd wedi'i deilwra i ddiwallu eu hanghenion penodol.¹²² Awgrymodd Cwmnïau Cymdeithasol Cymru¹²³ a Chynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru¹²⁴ y byddai cael eu heithrio o ardrethi annomestig o gymorth mawr i fentrau cymdeithasol. Pwysleisiodd Cwmnïau Cymdeithasol Cymru wrthym hefyd am bwysigrwydd cynllunio busnes da.¹²⁵

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gydag ystod o bartneriaid, gan gynnwys Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru, i wella hygyrchedd, ansawdd ac argaeledd cymorth a chyngor busnes i sector y mentrau cymdeithasol, a sicrhau y gellir darparu cyngor ariannol a chyngor busnes o lefel uchel gyda'i gilydd mewn un lle fel pecyn cydlynol a chynhwysfawr i fentrau ledled Cymru er mwyn hwyluso eu twf.

Sgiliau

85. Roedd gan Cwmnïau Cymdeithasol Cymru bryderon ynghylch pa mor addas yw rhai o'r ffynonellau o gyngor a chymorth busnes sydd ar gael i fentrau cymdeithasol. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd cael bwrdd cadarn o gyfarwyddwyr a phenodi rheolwr masnachol, sef y trobwynt, yn aml, pan fydd y pwyslais yn symud o ganolbwyntio ar brosiect i ganolbwyntio ar yr ochr fasnachol a thyfu.¹²⁶ Dywedodd Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru wrthym mai un o'r pethau allweddol oedd cael yr unigolion cywir, sef y bobl sydd â'r angerdd a'r sgiliau busnes, entrepreneuraidd a marchnata angenrheidiol ac ati.¹²⁷

86. Dywedodd Adele Blakebrough wrthym nad oedd diffyg prif weithredwyr i greu mentrau cymdeithasol – pobl sydd â gweledigaeth, pwrpas a chadernid – a bod digon o bobl i wneud y gwaith ar lawr

¹²¹ Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 4

¹²² Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 7

¹²³ Cwmnïau Cymdeithasol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 5

¹²⁴ Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 4

¹²⁵ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 112, 8 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

¹²⁶ Cwmnïau Cymdeithasol Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalennau 4 i 5

¹²⁷ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 177, 15 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

gwlad. Fodd bynnag, roedd diffyg sgiliau, ac isadeiledd yn aml mewn rhai meysydd – gweithrediadau, cyllid, marchnata, hyfforddiant, adnoddau dynol, TG – i’w rhwystro rhag tyfu, yn enwedig y sefydliadau llai.¹²⁸

87. Dywedodd Adele Blakebrough wrthym hefyd am y ffordd y gall rhaglen Breakthrough ddarparu mynediad i fentrau cymdeithasol at sgiliau lefel uchel, fel gwasanaethau cyfrifeg, cyfreithiol ac ymgynghorol, na allai’r sefydliadau eu fforddio fel arfer; roedd hi’n awyddus i ddod â rhai o fentrau cymdeithasol Cymru yn rhan o’r cynllun.¹²⁹ Roedd Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru o’r farn bod angen cymysgedd o ddulliau – rhagor o gymorth o’r sector sgiliau prif ffrwd, ymarferwyr yn dysgu oddi wrth ei gilydd ac yn talu am arbenigedd proffesiynol yn ôl yr angen.¹³⁰

88. Clywsom hefyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fod angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru gymryd yr angen i ddatblygu sgiliau’r 50,000 o bobl sy’n gweithio yn y trydydd sector o ddifrif.¹³¹ Gwnaeth UnLtd bwynt diddorol:

“the nature of the people who come to us is that, often, they come from a business background. They are actually very adept at running businesses. The skills that they need to learn are in the community sector, and how to engage a community.”¹³²

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod y rhaglen gyffredinol ar gyfer datblygu sgiliau’r gweithlu Cymreig yn diwallu anghenion amrywiol y sector mentrau cymdeithasol, yn enwedig wrth ddatblygu sgiliau craidd entrepreneuriaid masnachol, er enghraifft, drwy gymorth a mentora gan gyfoedion.

¹²⁸ Cofnod o’r Trafodion, paragraff 179, 1 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

¹²⁹ Cofnod o’r Trafodion, paragraffau 188 i 191, 1 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

¹³⁰ Cofnod o’r Trafodion, paragraffau 163 i 164, 8 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

¹³¹ Cofnod o’r Trafodion, paragraff 57, 8 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

¹³² Cofnod o’r Trafodion, paragraff 169, 22 Medi 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

Casgliadau

89. Mae gan fentrau cymdeithasol botensial clir i ddatblygu atebion arloesol, dychmygus a chynaliadwy ac i ddarparu canlyniadau economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol positif i Gymru,¹³³ er bod hyn yn fwy gwir am rai sectorau nag eraill. Er ein bod yn cytuno â thystion nad yw'n cynnig yr holl atebion,¹³⁴ rydym o'r farn bod cyfle i fentrau cymdeithasol wneud rhagor o gyfraniad mwy i ddatblygu economaidd nag ar hyn o bryd.

90. Roedd Nigel Annett, Rheolwr Gyfarwyddwr Glas Cymru, yn credu:

“Wales has a very proud tradition of co-operative movement in terms of mutuality and so on and I would love to see that revitalised.”¹³⁵

91. Yn ôl Adele Blakebrough, mae'r ffaith bod Cymru'n fach yn golygu y gellir cael “[a] faster, much more intimate and less bureaucratic engagement with social enterprises” o'i chymharu â Lloegr.¹³⁶

92. Hoffem weld mentrau cymdeithasol mwy yn cael eu creu a'u cynnal yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn synhwyro bod gwahaniaethau o ran meddylfryd yn bodoli yn y sector. Mae rhai sefydliadau yn fodlon aros yn fach gan ganolbwyntio ar y gymuned, ond y byddai sefydliadau eraill yn croesawu cymorth i symud ymlaen i lefel mwy masnachol. Yn yr un modd â'r ffordd mae Jerr Boschee yn gwahaniaethu rhwng arloesedd cymdeithasol a menter gymdeithasol,¹³⁷ rydym ni o'r farn bod lle i'r ddau: fel y dywedodd Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru wrthym, un o gryfderau'r model mentrau cymdeithasol yw ei fod yn ddynamig a chreadigol a'i fod yn gallu cynnwys dau ben o'r sbectrwm.¹³⁸

93. Mae rôl bwysig o hyd i fentrau cymdeithasol yn eu cymunedau lleol. Gall mentrau cymdeithasol wneud cyfraniad gwerthfawr i rai o ardaloedd tlotaf Cymru – ardaloedd lle na wnaiff llawer o fusnesau prif

¹³³ Gweler enghreifftiau yn nhystiolaeth ysgrifenedig Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, tudalennau 4 a 5

¹³⁴ Yr Athro Alan Lovell, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 1

¹³⁵ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 104, 22 Medi 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

¹³⁶ Cofnod o'r Trafodion, paragraffau 140 a 144, 1 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

¹³⁷ Gweler paragraff 6 uchod

¹³⁸ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 151, 8 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

ffrwd weithredu – ac i ddarparu gwaith i bobl sydd yn draddodiadol wedi’u heithrio a grwpiau ymylol. Gwnaeth Nofit State sylw am fentrau cymdeithasol sydd wedi’u sefydlu gan bobl leol i ddiwallu anghenion lleol:

“support bottom-up community development with all associated benefits of community empowerment and developed self-confidence, retaining community control and community ownership of solutions to local problems, developing community based skills.”¹³⁹

94. Fodd bynnag, rydym am weld y model busnes mentrau cymdeithasol yn datblygu a thyfu ar raddfa fwy. Fel y nododd Nofit State am y categori hwn:

“Social enterprises which trade outside the local community.[...]are able to play a more significant role in economic development.”

95. Dylai fod yn bosibl mynd i’r afael â rhagor o anghenion cymdeithasol drwy ddefnyddio dulliau busnes. Yr unig ffordd mae hynny’n debygol o ddigwydd, fodd bynnag, yw os oes ymrwymiad ac ymyrraeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a’r sector cyhoeddus yn ehangach: i agor meddyliau a newid canfyddiadau pobl am fentrau cymdeithasol, ac i fagu hyder yn y model busnes. Fel y dywedodd Adele Blakebrough wrthym:

“You have to keep giving good examples that are not threatening and that show how something can blossom and work effectively.”¹⁴⁰

96. Yn ail, mae’n rhaid i’r Llywodraeth greu’r amodau marchnad cywir lle gall mentrau cymdeithasol ac entrepreneuriaeth flodeuo. Bydd hyn yn cynnwys creu trefniadau caffael teg a phriodol sy’n galluogi mentrau cymdeithasol i gystadlu’n effeithiol, a darparu cymorth ariannol teilwredig a’r cymorth busnes a’r sgiliau eraill sydd eu hangen ar y sector. Yn bwysicaf oll, mae’n rhaid i’r pecynnau cymorth sydd ar gael i fentrau cymdeithasol adlewyrchu amrywiaeth y sector.

¹³⁹ Nofit State Circus, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 2

¹⁴⁰ Cofnod o’r Trafodion, paragraff 212, 1 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

97. Rydym ni o'r farn y bydd gan Gynghair Mentrau Cymdeithasol Cymru rôl hanfodol i'w chwarae, er enghraifft bod yn borth i wybodaeth ac i ddwyn rhwydweithiau o fentrau cymdeithasol ac ymarferwyr cymdeithasol ynghyd.

98. Serch hynny, o edrych ar y model busnes mentrau cymdeithasol er mwyn helpu economi Cymru i dyfu, dylid rhoi sylw priodol i rôl unigolion a'r cymorth sydd ar gael iddynt. Dywedodd Dŵr Cymru wrthym:

“You...need individuals with a sense of entrepreneurship.”¹⁴¹

99. Dywedodd Jerr Boschee wrthym:

“Entrepreneurship is an individual kind of thing. If you can create a playing field, give people enough space to manoeuvre, and provide them with some resources from which they can draw, but which are not dictated to them, I think that you will have gone a long way to creating a healthy social enterprise environment in Wales.”¹⁴²

100. Dywedodd UnLtd wrthym:

“Mae entrepreneuriaid heb ymrwymiad cymdeithasol yn creu cyfoeth i ychydig o bobl. Mae ymrwymiad cymdeithasol heb fenter yn disbyddu'r cronfeydd cyhoeddus. Mae entrepreneuriaid cymdeithasol yn creu cyfoeth ac yn ei rannu gyda'r gymuned gyfan.”¹⁴³

101. Rydym yn gobeithio y bydd yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn dylanwadu ar Weinidogion Cymru wrth sylweddoli y potensial sydd gan entrepreneuriaid cymdeithasol a mentrau cymdeithasol yng Nghymru i ddarparu atebion arloesol i'r sefyllfa economaidd bresennol ac helpu i adeiladu economi gyfoethocach a mwy cynaliadwy i Gymru.

¹⁴¹ Cofnod o'r Trafodion, paragraff 51, 22 Medi 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

¹⁴² Cofnod o'r Trafodion, paragraff 233, 8 Gorffennaf 2010, y Pwyllgor Menter a Dysgu

¹⁴³ UnLtd, tystiolaeth ysgrifenedig, tudalen 3

Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir darllen trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth a'r dystiolaeth ysgrifenedig gysylltiol drwy ddilyn y lincs i'n gwefan. <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm>

1 Gorffennaf 2010

Adele Blakebrough

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog, dyddiedig 26 Gorffennaf

8 Gorffennaf 2010

Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru

Jerr Boschee

Cwmnïau Cymdeithasol Cymru

Canolfan Cydweithredol Cymru

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

15 Gorffennaf 2010

Y Banc Elusen

Co-operatives and Mutuals Wales

Cwmni Buddiannau Cymunedol y Cymoedd Gwyrdd

Cynghrair Mentrau Cymdeithasol Cymru

22 Medi 2010

Awel Aman Tawe

Glas Cymru/Dŵr Cymru

Nofit State Circus

UnLtd

Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Cyflwynodd yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig drwy ddilyn y lincs i'n gwefan. http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-inquiry/el3_ing_social_enterprises_responses.htm

Sefydliad

Sefydliad Astudiaethau Cydweithredol Caerdydd

Collaborative Communities

Cartrefi Cymunedol Cymru

Cymorth Cymru

Enfys Foundation

Galeri Caernarfon Cyf

Ymddiriedolaeth Datblygu Gorseinon

Gwalia

Interlink, Cyngor Gwirfoddol Sirol Rhondda Cynon Taf

Richard Lewis, Supporting Community Enterprise

Yr Athro Alan Lovell, Prifysgol Morgannwg

Rhwydwaith Economi Cymdeithasol Merthyr Tudful a Chyngor

Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Cymdeithas Marchnad Gymunedol Glan yr Afon

Vision 21

The Waterloo Foundation

Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol y Merched